# PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | Dydd Mercher 24 Ebrill 2002 |
| Amser: | 10.00 |
| Lleoliad: | Ystafell pwyllgor 3&4 |
| Teitl: | Etholiadau'r Cynulliad 2003 - Hygyrchedd Gorsafoedd Pleidleisio |

## Pwrpas

1. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi (a) y trefniadau sydd wedi'u gwneud ar gyfer gwneud yn siwr bod etholiadau'r Cynulliad yn 2003 mor hygyrch â phosibl; a (b) y cyfle sydd ar gael i'r Cynulliad weithredu yn y maes hwn.

**Crynodeb**

2. Er nad oes gan y Cynulliad lawer o swyddogaethau sy'n ymwneud ag etholiadau, a dim swyddogaeth o gwbl yn ymwneud yn uniongyrchol â materion hygyrchedd, gallwn, serch hynny, gydweithio gyda'r rhai hynny sydd â chyfrifoldeb ffurfiol - y Comisiwn Etholiadol, yr Adran Trafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau (DTLR), a'r swyddogion canlyniadau unigol - i wneud yn siwr bod etholiadau 2003 mor hygyrch â phosibl.

**Amserlen**

3. Gofynnodd y Pwyllgor am y papur hwn yn ei gyfarfod blaenorol. Gan y bydd y gwaith yn y maes hwn yn parhau tan yr etholiad, bydd unrhyw sylwadau a all fod gan y Pwyllgor o gymorth ar unrhyw adeg.

**Cefndir**

4. Yng Nghymru, mae pob etholiad yn cael ei weinyddu gan swyddogion canlyniadau ym mhob etholaeth a rhanbarth, a hynny o dan gyfarwyddyd y Comisiwn Etholiadol a DTLR. Rydym yn gweithio'n agos gyda phob un o'r rhain i baratoi ar gyfer yr etholiad ac i wneud yn siwr bod y broses etholiadol mor hygyrch â phosibl.
5. Yn ei gyfarfod blaenorol, ystyriodd y Pwyllgor *Polls Apart*, adroddiad gan y Comisiwn Hawliau Anabledd (DRC) a Scope a fu'n ystyried pa mor hygyrch oedd Etholiad Cyffredinol 2001. Gwaeth *Polls Apart* nifer o argymhellion ynghylch sut y gellid gwella hygyrchedd.

**Materion i'w Hystyried**

<u>Gorsafoedd pleidleisio</u>

6. Bydd y swyddogion canlyniadau yn dewis gorsaf bleidleisio ar gyfer pob ardal bleidleisio. Wrth wneud hynny, mae ganddynt ddyletswydd statudol i ofalu bod digon ohonynt ac i ddewis y rhai mwyaf hygyrch. Serch hynny, cafwyd bod nifer o orsafoedd pleidleisio llai hygyrch yn cael eu defnyddio (megis hen adeiladau gyda grisiau, neu garafanau), a bod gorsafoedd pleidleisio a ddefnyddiwyd gynt yn cael eu cau.
7. Yn ddiweddar, anfonodd y Comisiwn Etholiadol ganllawiau i swyddogion canlyniadau yn Lloegr i'w helpu i baratoi ar gyfer yr etholiadau yno ym mis Mai eleni. Roedd hyn yn cynnwys canllawiau ar hygyrchedd ac yn cynnwys rhestr wirio i benderfynu pa mor hygyrch oedd y gorsafoedd pleidleisio. Awgrymwyd hyn gan y DRC a Scope yn *Polls Apart*. Bydd y Comisiwn yn cyhoeddi canllawiau tebyg ar gyfer etholiadau'r Cynulliad.
8. At hyn, bydd y Gweinidog Cyllid yn cysylltu â'r swyddogion canlyniadau yng Nghymru cyn bo hir i ofyn iddynt ail-edrych ar eu gorsafoedd pleidleisio presennol gan nodi pa rai sy'n groes i restr wirio DRC / Scope. Byddai hyn yn atgoffa'r swyddogion canlyniadau am eu dyletswyddau yn y maes hwn ac yn rhoi digon o amser iddynt fynd i'r afael â phroblemau hygyrchedd cyn yr etholiadau. Er enghraifft, fe allai fod yn bosibl i drafod gyda'r heddluoedd a oes modd llacio'r cyfyngiadau parcio gerllaw gorsafoedd pleidleisio lle nad oes maes parcio cyfleus. Yn dilyn hynny, gellid cynnal arolwg yn etholiad 2003 tebyg i'r arolwg a arweiniodd at *Polls Apart.*
9. Yn ei gyfarfod blaenorol, awgrymodd y Pwyllgor y gellid lleoli gorsafoedd pleidleisio mewn llefydd fel archfarchnadoedd. Mae'n wir y gallant fod yn fwy cyfleus nag adeiladau cyhoeddus fel ysgolion a llyfrgelloedd, yn enwedig o ran parcio. Nid oes dim yn y gyfraith etholiadol i rwystro archfarchnadoedd rhag cael eu defnyddio ac mae rhai awdurdodau wedi arbrofi gyda hyn. Serch hynny, mae rhai anfanteision. Yn gyntaf, ychydig iawn o archfarchnadoedd sydd â lle tawel a fyddai'n addas ar gyfer gorsaf bleidleisio. Golygodd hyn bod pleidleiswyr yn cwyno am na allant bleidleisio'n breifat. Yn ail, mae'r archfarchnadoedd mwyaf, a allai fod yn addas, fel rheol ar gyrion trefi, ac felly'n aml iawn yn llai hygyrch i'r sawl sydd heb gar. Yn olaf, mewn nifer fach o ardaloedd pleidleisio yn unig y mae archfarchnadoedd addas ar gael. Diau fod archfarchnad yn well mewn rhai mannau nag adeilad cyhoeddus, ond efallai nad dyma'r ateb ym mhob man.

<u>Cardiau pleidleisio</u>

10. Mae modd i gardiau pleidleisio gyfrannu mwy at hygyrchedd nag y maent yn ei wneud ar hyn o bryd. Er enghraifft, gallent fod mewn print bras, a gallent ddangos yn fwy clir ym mhle y mae'r orsaf bleidleisio, i ba raddau y mae'n hygyrch (e.e. a oes lle parcio a bythau pleidleisio isel), ac â phwy y gellir cysylltu am fwy o gyngor neu wybodaeth. Mae Bwrdeistref Haringey yn Llundain eisoes wedi gwneud y math yma o beth yn eithaf llwyddiannus. Unwaith eto, bydd y Gweinidog Cyllid yn cysylltu â swyddogion canlyniadau Cymru ynghylch hyn.

<u>Hyfforddi staff etholiadol</u>

11. Er mwyn bod mor hygyrch â phosibl, mae'n hanfodol bod staff etholiadol, yn enwedig staff gorsafoedd pleidleisio, yn cael hyfforddiant priodol i ymateb i anghenion pleidleiswyr sydd ag anableddau. Mae'r Comisiwn Etholiadol ar fin llunio manyleb hyfforddiant ar gyfer etholiadau'r Cynulliad, a fydd yn cynnwys hyfforddiant mewn hygyrchedd a materion anabledd. Bydd y Comisiwn yn ymgynghori â'r Cynulliad am hyn cyn gwahodd tendrau oddi wrth ddarparwyr

hyfforddiant.

Pleidleisio tra'n absennol

12. Ni ddylid ystyried pleidleisio tra'n absennol (hy pleidleisio drwy'r post neu brocsi) yn ddewis cyffredinol derbyniol dros beidio â phleidleisio'n bersonol neu dros beidio â gwneud gorsafoedd pleidleisio'n hygyrch. Serch hynny, yn achos rhai pleidleiswyr, megis y rhai hynny sy'n derbyn gofal hirdymor, byddai siwrnai i orsaf bleidleisio yn anodd neu'n amhosibl, ac felly pleidleisio drwy'r post neu brocsi yw'r unig ddewis.
13. Mae'n hanfodol felly bod y cyfryw bleidleiswyr yn medru cofrestru i bleidleisio tra'n absennol: byddent fel arall yn cael eu heithrio o'r broses etholiadol yn gyfan gwbl. Felly, bydd y Comisiwn Etholiadol, gyda chymorth y Cynulliad, yn sicrhau bod ei ddeunyddiau ymgyrchu a chyhoeddusrwydd ar bleidleisio tra'n absennol yn cyrraedd pob ysbyty, a chartrefi gofal a nyrsio yng Nghymru.

Dulliau arloesol o bleidleisio

14. Yn ei gyfarfod blaenorol, mynegodd y Pwyllgor ddiddordeb mewn newid y dulliau traddodiadol o bleidleisio mewn gorsaf bleidleisio. Mae hyn yn adlewyrchu rhaglen o brosiectau peilot mewn etholiadau lleol - yn Lloegr yn unig hyd yma. Roedd y rhain yn cynnwys pethau fel pleidleisio'n electronig, pleidleisio trwy'r post yn unig a rhoi cyfle i bleidleisio cyn y diwrnod pleidleisio swyddogol.
15. Er y gallai llawer o'r prosiectau hyn fod o fudd i bleidleiswyr yn gyffredinol, bach iawn o help fyddent i fynd i'r afael â materion hygyrchedd. Er enghraifft, gallai pleidleisio'n electronig fod yn haws i rai (megis pobl sy'n gaeth i'r ty sydd â chysylltiad â'r Rhyngrwyd) ond mae perygl y gallai dosbarth newydd o bleidleiswyr gael ei greu, sef y rhai hynny sydd heb y cyfryw gysylltiad a/neu heb y sgiliau TG angenrheidiol ac yn anghyfarwydd â'r system.
16. Un o'r prosiectau peilot mwyaf addawol yw defnyddio gorsaf bleidleisio deithiol, sy'n ymweld â'r rhai hynny na all deithio i'w gorsaf bleidleisio arferol a phleidleisio'n bersonol. Treialwyd hyn yn llwyddiannus yn 2000 gan Gynghorau Dinas Sunderland a Norwich: cafodd gefnogaeth gref gan y rhai a ddefnyddiodd y gwasanaeth ac arweiniodd hefyd at gynnydd sylweddol yn nifer y bobl a ddaeth i bleidleisio. Gallai hyn, yn ddiau, fod yn ffordd arall o fynd i'r afael â phroblemau hygyrchedd ac yn datrys y gor-ddibyniaeth ar bleidleisio tra'n absennol.
17. O dan y gyfraith etholiadol, nid yw'n bosibl i brosiectau peilot gael eu cynnal yn etholiadau'r Cynulliad, ac mae'n rhy agos at etholiadau 2003 i newid hynny. Serch hynny, byddwn yn awyddus i ddefnyddio'r gwersi cyffredinol a ddysgwyd o'r prosiectau peilot - yn enwedig defnyddio gorsafoedd pleidleisio teithiol - yn etholiadau'r Cynulliad cyn gynted ag y bo modd.

***vi. Cydymffurfio***

18. Unig swyddogaeth arwyddocaol y Cynulliad mewn perthynas ag etholiadau yw ad-dalu'r awdurdodau lleol am y gost o'u cynnal. Serch hynny, gall wneud sylwadau am y materion a grybwyllir yn y papur hwn o dan adran 33 o Ddeddf Llywodraeth Cymru (ystyried materion sy'n effeithio ar Gymru).

***vii. Camau i'r Pwyllgor eu Cymryd***

19. Gofynnir i'r pwyllgor nodi'r mentrau gwirioneddol a phosibl yn y maes hwn, a rhoi sylwadau fel

y bo'n briodol am sut y gellid eu cryfhau.

***viii. Swyddogion cyswllt***

20. Y ffynhonnell orau o wybodaeth yn y maes hwn yw'r Comisiwn Etholiadol, ac mae'r Pwyllgor hefyd wedi gofyn am wybodaeth oddi wrthynt. Serch hynny, y swyddogion cyswllt yn y Cynulliad yw:
Steve Pomeroy, Pennaeth yr Uned Cabinet ac Ymgynghori, x8248 (polisi etholiadau a phrosiectau peilot);
Frank Cuthbert, Yr Is-adran Moderneiddio Llywodraeth Leol, x3094 (yn cysylltu â swyddogion canlyniadau a thrafod costau'r etholiadau).